

No.

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.J.G. Morgan and S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor/Panel Tenantiaid), Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) a E. Goodjohn.

688 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

689 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd I. Buckley a V. John Gyngorwyr ((Cynrychiolwyr o Weithgor/Panel Tenantiaid)

690 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2023 fel cofnod cywir.

691 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant yn Eitem Agenda 8 – Monitro Cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2022. Natur ei buddiant oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

No.

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant yn Eitem Agenda 11(i) – Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53. Natur ei buddiant oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant yn Eitem Agenda 8 – Monitro Cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2022. Natur ei fuddiant oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant yn Eitem Agenda 11(i) – Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53. Natur ei fuddiant oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

692 ASESAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus. Gofynnodd y cyfeiriad i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad atodedig a chymeradwyo Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg (ALISTh) 2022 er mwyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC). Roedd hyn yn rhan o ofyniad cyfreithiol i Awdurdodau Lleol ar draws Cymru gynnal asesiad llety sipsiwn a theithwyr er mwyn nodi'r angen am safleoedd a chaeau yn eu hardal ar gyfer cymunedau o'r fath. Roedd methodoleg ragnodedig hefyd ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn.

Cwblhawyd yr ALISTh ar ran y Cyngor gan Opinion Research Services (ORS) ac roedd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio oedd yn cynnwys staff y Cyngor a chynrychiolwyr o asiantaethau partner. Yn anffodus, doedd hi ddim yn bosib cael aelod o'r gymuned Sipsiwn / Teithwyr i fod yn rhan o'r grŵp.

Roedd yr ALISTh wedi nodi diffyg o naw cae i 2026 a dau gae arall oedd eu hangen erbyn 2036. Fodd bynnag, roedd y meddianwyr yn Hayes Road, Sili wedi cael eu hepgor o gyfrifo 'angen' oherwydd y ffaith eu bod wedi meddiannu'r safle presennol am dros ddeng mlynedd ac roedd y safle yn eiddo i'r Cyngor; felly, nid oedd modd cymryd camau gorfodi cynllunio. Roedd hyn yn unol â'r ddogfen ganllaw a gyhoeddwyd gan LIC yn ymwneud â chynnal ALISThau.

Pwysleisiodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Lleoddedd mai mater i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) fyddai nodi sut y byddai'r angen a nodwyd ar gyfer safleoedd / caeau yn cael eu diwallu. Yn y pen draw, byddai'r ALISTh yn bwydo i mewn i'r CDLIN ac yn helpu i'w lywio.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau dilynol gan y Pwyllgor.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am eglurhad ar lefel yr ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr o ran yr ALISTh, lle, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cyngor a phartneriaid (megis Sipsiwn a Theithwyr Cymru) i ddefnyddio gwahanol lwybrau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn, dim ond ymateb cyfyngedig a fu. Cadarnhawyd bod nifer o Sipsiwn / Teithwyr yn ymateb i broses ALISTh ac yn cwblhau arolygon. Roedd Grŵp sy'n cynrychioli'r gymuned Sipsiwn / Teithwyr wedi gweithredu fel cyswllt ac wedi cysylltu â meddianwyr ar safle Hayes Road. Arweiniodd hyn at ymatebion gan un cartref ac ymateb pellach gan meddianwyr eraill yn gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg.

Gofynnodd y Cyngorydd Carroll pa ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r gymuned ehangach a thrigolion Bro Morgannwg fel rhan o'r ALISTh er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan, codi ymwybyddiaeth ac i helpu i gynnal cysylltiadau rhwng cymunedau da yn ogystal â chynnig sicrwydd i bob parti. Eglurwyd bod yr ALISTh yn ddarn penodol o waith a methodoleg sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y Cyngor hefyd wedi cynnal astudiaethau anghenion tai ehangach er mwyn asesu anghenion y boblogaeth ehangach, ond nid oedd gan y rhain bob amser y 'cyrhaeddiad' angenrheidiol er mwyn ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, felly'r angen am yr ALISTh. Fodd bynnag, bu peth ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill o amgylch yr ALISTh, megis Cyngorau Cymuned a byddai ymgynghori pellach gyda thrigolion ar ôl nodi unrhyw safleoedd posib ar gyfer y cymunedau Sipsiwn / Teithwyr fel rhan o'r CDLI newydd. Roedd yn bwysig pwysleisio na fyddai'r ALISTh yn nodi safleoedd na chynigion penodol, ond yn hytrach yn tynnu sylw at angen cyffredinol y cymunedau dan sylw; safleoedd penodol, ac ati. fyddai'n cael sylw gan y CDLI. Ar ymholiad dilynol y Cyngorydd Carroll ar ba ddiogelwch oedd ar waith ar safleoedd Sipsiwn / Teithwyr, eglurwyd nad oedd yr ALISTh yn cynnwys trefniadau diogelwch penodol ac ni fu'r Cyngor yn rheoli'r fath drefniadau dros safleoedd presennol y Sipsiwn a Theithwyr yn y Fro. Fodd bynnag, ar safle Hayes Road, roedd gât yn ei lle wrth y fynedfa a oedd wedi'i chloi.

Ar ymholiad y Cyngorydd Campbell ar ddefnyddio 'Sipsi' fel term i adnabod rhai o'r cymunedau a gwmpesir gan yr ALISTh a'i phryder bod hyn yn effeithio ar lefel yr ymgysylltu â grwpiau o'r fath, eglurwyd nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn derm sarhaus i'r cymunedau a nododd fel Sipsi ac a oedd yn derm rhagnodedig a ddefnyddiwyd gan LIC i adnabod grwpiau ac unigolion demograffig o'r fath. Y mater allweddol ynghylch ymgysylltu â'r grwpiau hyn oedd eu drwgdybiaeth hanesyddol o awdurdod a'r broses ALISTh, er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, partneriaid a phartion eraill â diddordeb i ymgysylltu â'r grwpiau hyn.

Fe gymeradwyodd y Cyngorydd Perkes yr adroddiad a gwaith yr ALISTh wrth helpu i gyfrifo anghenion y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn bwydo i mewn i'r CDLI ac unrhyw ofynion cynllunio sydd eu hangen yn y dyfodol neu'n ôl-weithredol. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig ystyried y gwahaniaethu a wynebair cymunedau hyn yn gyffredinol, gan gynnwys tai, a pheryglon codi ofnau

No.

a phryderon direswm ymhlith cymunedau cyfagos ynghylch eu llety a bod mewn ardaloedd cyfagos.

Pwysleisiodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau bod yr ALISTh yn ofyniad LIC er mwyn i'r Fro gael y math cywir o gyfleusterau ar gyfer ei thrigolion Sipsiwn a Theithwyr, fel y gwnaed ar gyfer y cymunedau lleol ehangach, ac edrych ar ehangu'r safleoedd presennol er mwyn darparu ar gyfer yr aelodau hynny o'r Cymunedau sipsiwn a Theithwyr agosáu at fod yn oedolyn, ymhlith anghenion eraill. Nid oedd hi'n ymwybodol o unrhyw broblemau'n ymwneud â'r berthynas rhwng y cymunedau hyn a thrigolion eraill ym Mro Morgannwg. Roedd yn bwysig bod Aelodau Etholedig yn hysbysu ac yn tawelu meddyliau eu hetholwyr bod prosesau fel yr ALISTh yn bodoli er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mewn ffordd deg a strwythuredig.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Morgan fod angen parhau i drafod ac ymgysylltu mwy gyda'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, fel cyd-drigolion y Fro, ac roedd yr ALISTh yn bwysig er mwyn helpu sicrhau bod eu llety yn briodol ac yn dderbyniol iddynt. Ailadroddodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus yr ymdrechion niferus i ymgysylltu â'r cymunedau hyn a'r heriau er mwyn ceisio cyflawni deialog agosach gyda nhw.

Dywedodd yr Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Hanks y byddai'r adroddiad cadarnhaol a chynhwysfawr hwn yn helpu i ddechrau proses ymgynghori ehangach (megis trwy'r CDLI) ac roedd yn bwysig bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo cyflwyno'r ALISTh i LIC.

Ar ôl ystyried cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r asesiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi'r adroddiad a'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr a chyflwyno'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad, yr asesiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

693 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023 gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 fel rhan o'r broses ymgynghori ar y meysydd allweddol hyn. Eglurwyd fod y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023/24 wedi bod yn fwy ffafriol nag oedd wedi ei ddisgwyl. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio £227m o'i chyllid o £644m i lywodraeth leol, ac roedd cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun (CAC) Bro Morgannwg wedi cynyddu â 8.9% (£16.6 miliwn). Ond er gwaethaf hyn, roedd bwlch ariannu o hyd y byddai angen i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef.

Roedd y Cyngor wedi gweithio ar lefel Uwch Dîm Arwain (UDA) er mwyn adolygu pwysau costau ar draws Cyfarwyddiaethau ac i gyflwyno'r pwysau costau neu gostau uwch yr oedden nhw'n eu rhagweld ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd pwysau cost o'r fath yn cynnwys pwysau Cyflog ac Ynni, yn ogystal â phwysau cost mwy penodol sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor hwn, h.y. cost llety digatrefedd Gwely a Brecwast, lleoli ffoaduriaid Wcreinaidd, teledu cylch cyfyng a Chymorth Cydlynedd Rhentu Preifat i gefnogi eiddo llety dros dro newydd.

Fel rhan o Strategaeth y Gyllideb, roedd y Cyngor wedi gweithio i nodi nifer o gynigion arbed dros ddeg 'thema'. Roedd cynigion arbedion sy'n benodol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cynnwys meysydd megis Ymgynghorydd Cyn-denantiaeth a chyllidebau Cynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro (CTChF) hyd at ddileu profion modd, cynyddu incwm ar gyfer cyllideb Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor hefyd wedi cael eu hadolygu er mwyn alinio ag amcanion a risgiau cyffredinol y Cyngor. Roedd cronfeydd wrth gefn hefyd wedi cael eu defnyddio i esmwytho effaith digartrefedd a chostau ynni, wedi camu i lawr dros ddwy flynedd. Hefyd, roedd Gwasanaethau Tai ac Adeiladu yn llunio Strategaeth Ddigartrefedd a fyddai'n edrych ar gynyddu capasiti ar gyfer digartrefedd dros y blynyddoedd nesaf. Wrth i'r ddarpariaeth honno ddod yn ffrwd, byddai hyn yn helpu i leddfu rhai o'r pwysau cyllidebol. Roedd y cronfeydd wrth gefn hefyd wedi'u symleiddio a fyddai'n helpu gyda monitro ac adrodd.

Amlinellwyd hefyd yr amserlen / y camau nesaf i Ymgynghori ar Gyllideb 2023/24 a Diweddariad Cynllun Ariannol Tymor Canolig Pellach, o ymgynghoriad cyhoeddus a Chraffu ym mis Ionawr / Chwefror hyd at y cynigion terfynol i fynd i'r Cyngor ar 6 Mawrth, 2023.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad, gofynnodd y Cynghorydd Perkes am effaith unrhyw ostyngiad posibl mewn costau ynni gan Ofgem ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Eglurwyd bod rhagweld pwysau costau ynni ar gyllideb a chronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi bod yn heriol oherwydd anwadalwch prisiau ynni yn ddiweddar, felly byddai unrhyw botensial o ostwng y costau hyn yn helpu i gael gwared ar rai o'r pwysau ar y gyllideb.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad y Cabinet wedi'i atodi mewn perthynas â Chyllideb 2023/24 ar gyfer Ymgynghori a'r Diweddariad Pellach ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rheswm dros yr argymhelliad.

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

No.

694 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU
ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023 gan y Rheolwr Cymorth Cyllid i'r Pwyllgor, a oedd yn darparu golwg gyffredinol, gyfunol, ar y ffioedd a'r taliadau ar gyfer y Cyngor cyfan, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdogaeth, Adnoddau, Lleoedd, Dysgu a Sgiliau a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried gan y Pwyllgor. Roedd y mwyafrif o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn adlewyrchu cynnydd o rhwng 5% ac 11%.

Cafodd y Pwyllgor hefyd wybod nad oedd ffioedd a thaliadau penodol yn yr adroddiad a ddisgynnodd o fewn eu cylch gwaith.

Byddai'r camau nesaf yn cynnwys ymgynghori gyda phob un o'r pum Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror i gynigion terfynol i'r Cabinet ddiwedd y mis.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Cymorth Cyllid, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

Ynglŷn ag ymholiadau'r Cynghorydd Morgan yn ymwneud â ffioedd a thaliadau cynyddol am barcio a chaffis o fewn y Fro, awgrymwyd y dylid codi'r rhain yn y Pwyllgor Craffu perthnasol (Amgylchedd ac Adfywio).

Roedd yr Is-gadeirydd am bwysleisio'r angen i beidio edrych ar gynnydd canran taliadau o'r fath yn unig ond hefyd edrych ar yr effaith a'r cyd-destun ehangach ac nad oedd penderfyniadau o'r fath wedi cael eu gwneud yn ysgafn nac yn gyflym ond yn hytrach ar ôl cryn dipyn o feddwl a thrafodaeth.

Ar ymholiad y Cynghorydd Campbell ar y rhesymeg dros y Pwyllgor yn derbyn y cyfeiriad hwn ar ei agenda, eglurwyd, oherwydd natur Cyngor cyfan yr adroddiad / cyfeiriad hwn, ei fod yn cael ei anfon at bob Pwyllgor Craffu i'w hystyried ac unrhyw sylwadau i'w hanfon ymlaen i adran Berfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ac yna ymlaen i'r Cabinet.

Ar ôl ystyried cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad y Cabinet wedi'i atodi mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig Bro Morgannwg ar gyfer 2023/2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

695 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023 gan y Rheolwr Cymorth Cyllid i'r Pwyllgor ei ystyried.

Roedd y meysydd dan sylw yn cynnwys y dyfarniad gan Lywodraeth Cymru (LIC) o £6.997 miliwn i'r Cyngor o ran setliad Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (CCC) ar gyfer 2023/24, a oedd yn gynydd cymharol fach o'i gymharu â'r llynedd ac roedd yn llai o gynydd o'i gymharu â'r hyn sy'n cyfateb i'r refeniw. Hefyd, roedd gwerth £20m o gyfalaf ledled Cymru ym mhob blwyddyn i'w ddarparu er mwyn i Awdurdodau allu ymateb i flaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Roedd y Cyngor yn disgwyl rhagor o wybodaeth gan LIC mewn perthynas â hyn i ddeall beth oedd yn ei olygu i'r Cyngor. Roedd LIC wedi cadarnhau y byddai'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol yn aros ar yr un lefel ar gyfer 2024/25 ond doedd dim rhagamcanion pellach y tu hwnt i'r pwynt hwn wedi'u rhoi.

Cyflwynodd y Swyddog i'r Pwyllgor y meysydd gwariant disgwylidig dros y rhaglen 5 mlynedd, gan gynnwys y meysydd hynny o fewn cylch gwaith y Pwyllgor h.y. £167 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai. Daeth cyfanswm cyllid y Rhaglen Gyfalaf i ychydig dros £98 miliwn, oedd yn cynnwys dros £74 miliwn mewn grantiau amrywiol, A106, cyllid Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a ychydig dros £23 miliwn mewn benthyca.

Darparwyd dadansoddiad o Gynlluniau Newydd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2023/24 hefyd; o nodyn arbennig i'r Pwyllgor oedd yr arian cyfatebol o £85k ar gyfer y Grant Cynllun Cartrefi Gwag, roedd LIC yn darparu grant eithaf iach y byddai angen i'r Cyngor ddod o hyd i arian cyfatebol tuag at hynny gafodd ei gynnwys yn y rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriwyd at yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer cynigion drafft y Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2027/28, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a Chraffu drwodd i ddrafftio a chyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gofynnodd y Cynghorydd Morgan sut yr aeth trigolion ati i ymgysylltu â'r broses ymgynghori. Esboniodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 y gellid dod o hyd i'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor, yn ogystal â nifer o ddatganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu gwneud er mwyn annog cyfranogiad y cyhoedd. Roedd ychydig o dan 600 o ymatebion wedi bod hyd yma.

Ar ôl ystyried cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD - Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad y Cabinet wedi'i atodi mewn perthynas â'r Cynigion Rhaglen Gyfalaf Drafft ar gyfer 2023/24 i 2027/28.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

696 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 TACHWEDD 2022 (CAT) –

Pwrpas yr adroddiad, fel a gyflwynwyd gan y Rheolwr Cefnogi Cyllid, oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd, 2022 o fewn eu cylch gwaith.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod uchod ac yn cynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt. Roedd dau gais newid o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn ynglŷn â chario ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24:

- Gwasanaethau Cymdeithasol - Salisbury Road Rhif 91 (GTI) Atgyweiriadau Allanol Cam 2 - £15k; a
- Lleoedd - Ardal Adnewyddu Penarth - £5k.

O ran defnyddio Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, cyfeiriwyd at y cario ymlaen £4.544m i mewn i Raglen Gyfalaf 2023/24 o dan y Rhaglen Gwella Tai 2022/23. Roedd hyn o ganlyniad i oedi ym mhenderfyniadau cynllunio a chaffael, ac roedd prinder staff wedi gwaethygu'r sefyllfa.

Amlinellwyd y cynnydd ar y gwahanol gynlluniau cyfalaf sylweddol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hefyd, h.y. y 138 o gartrefi Cyngor newydd oedd i fod i gael eu datblygu fel rhan o'r cynllun Adeiladau Newydd, o dan y Rhaglen Gwella Tai.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm â'r adroddiad.
- (4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr Argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

697 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (CAT) –

Pwrpas yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd yn ymwneud â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd, 2022.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cyllidebau diwygiedig, unwaith y gwnaed rhai trosglwyddiadau ar gyfer Yswiriant a Thrwyddedau TGCh. Bu trosglwyddiadau cyllideb hefyd o fewn y Gyfarwyddiaeth Lleoedd, i adlewyrchu rhywfaint o ailstrwythuro.

Amlinellwyd prif benawdau'r gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Roedd hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a oedd yn adrodd tanwariant o £100k oherwydd swyddi gwag staff yn y gwasanaeth ac incwm ychwanegol yn 2022/23 i'w drosglwyddo i'r cronfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd disgwyl yn bresennol i wasanaethau eraill h.y. Gwasanaethau Tai Sector Cyhoeddus a Gwasanaethau Rheoliadol, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor gael alldro ar y gyllideb. Amlygwyd pwysau o ran yr elfen heb gyllideb o ddyfarniad cyflog 2022/23, incwm a digartrefedd, yn ogystal â'r pwysau ynghylch incwm rhent ar gyfer Tŷ Tregatwg ac incwm Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Nodi'r trefniadau i wrthbwysu'r gorwario amcanedig yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) Cymeradwyo'r gyllideb Refeniw Ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn Atodiad 1.

Rheswm dros yr Argymhellion

(1-3) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

698 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER 2023/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2022/23 (PW) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad a oedd yn hysbysu Aelodau o gynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac Amserlen y flaenraglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23.

O ran Orlhain Argymhellion y trydydd chwarter Hydref - Rhagfyr 2022 (Atodiad C), roedd y rhain i gyd bellach wedi'u cwblhau. Amlygwyd hefyd yr argymhelliad parhaus / heb ei gwblhau o 2021-22 yn ymwneud â'r Gwasanaeth CAACD, gyda diweddariad pellach ar y gwaith hyd yn hyn h.y. cyflwyniad yn y dyfodol i'r Pwyllgor gan Atal y Fro ar ei waith o amgylch ymgysylltu â goroeswyr.

O ran y Flaenraglen Waith (Atodiad D), gofynnodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i'r Pwyllgor ganiatáu gwelliant i hyn, gan fod Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 (cyfeiriad o'r Cabinet) yn cael ei symud o fis Mawrth 2023 i fis Chwefror 2023 yn Amserlen y Rhaglen Waith oherwydd ei gynnwys ar agenda Chwefror fel eitem frys.

Yn dilyn yr adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Hanks at Atodiad C yr adroddiad a'r argymhelliad ynghylch diweddariad ar deledu cylch cyfyng y Fro yn y dyfodol agos. Eglurwyd y bu diweddariad ar gyflwyno teledu cylch cyfyng mewn cyfarfod diweddar ynglŷn â'r diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol a bod cynnig i'r Pwyllgor ymweld â'r teledu cylch cyfyng newydd (i'w gadarnhau). Cysylltir â'r Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol hefyd er mwyn nodi pryd y byddai adroddiad / diweddariad pellach ar deledu cylch cyfyng yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Ar ymholiad yr Is-gadeirydd ar y Flaenraglen Waith yn ymwneud â'r Strategaeth Buddsoddi Cymunedol a drefnwyd ar gyfer Ebrill 2023 a sut y gallai gyrchu'r iteriad blaenorol o hyn (Tachwedd 2021), eglurwyd bod hyperddolen i'r eitem hon ar wefan y Cyngor wedi'i chynnwys o fewn rhan berthnasol y Flaenraglen Waith.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C yr adroddiad.
- (2) Cymeradwyo Atodlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad D yr adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar wneud y diwygiad canlynol:
 - Symud Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 (cyfeiriad gan y Cabinet) o fis Mawrth 2023 i fis Chwefror 2023 yn Atodlen y Rhaglen Waith.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

699 MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Bod y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn frys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnodion yn cael ei ystyried.

700 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2023/53 (CYF) –
(Yn frys gan fod angen i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn brydlon, er mwyn i unrhyw farn neu sylwadau gan y Pwyllgor gael eu cyfeirio i'r Cabinet ar gyfer ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2023 cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2023 i'w gymeradwyo a'i anfon wedyn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth, 2023)

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 2 Chwefror, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Adeiladu.

Esboniodd y Rheolwr Gweithredol fod yr amserlen ar gyfer newid Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 yn dynn dros ben. Dim ond ychydig cyn Nadolig 2022 daeth y canllawiau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn ac roedd rhaid cyflwyno'r Cynllun i LIC erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 yn nodi'r rhaglen fuddsoddi sylweddol o 30 mlynedd ar gyfer stoc dai'r Cyngor a sut y byddai'r rhaglen hon yn cael ei gweithredu a'i chynnal ar y cyd â rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Roedd hefyd yn ystyriaeth ar y buddsoddiad sydd ei angen i ymateb i newid yn yr hinsawdd / gostyngiad carbon ynglŷn â stoc tai'r Cyngor (gan gynnwys diweddaru Tystysgrifau Perfformiad Ynni (TPYau) ar holl eiddo'r Cyngor), adeiladau newydd ac ehangu stoc dai y Cyngor yn ogystal ag adfywio, wrth reoli lefel y ddyled o fewn y CRT.

Ar ôl ystyried cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.